

Adroddiad i'r	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y Cyfarfod	25 Tachwedd 2021
Aelod/ Swyddog Arweiniol	Cyng. Julian Thompson-Hill, Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol dros Gyllid, Perfformiad ac Asedau Strategol
	Alan Smith, Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio
Awdur yr Adroddiad	Iolo McGregor, Arweinydd Tîm Cynllunio Strategol a Pherfformiad
Teitl	Diweddariad ar y Cynllun Corfforaethol, Chwarter 2, 2021 i 2022

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno diweddariad ar y gwaith o gyflawni'r Cynllun Corfforaethol rhwng 2021 a 2022 fel ar ddiwedd chwarter 2 (mis Gorffennaf i fis Medi 2021).

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 I ddarparu gwybodaeth ynglŷn â chynnydd y Cyngor fel yr oedd ar ddiwedd chwarter 2, 2021 i 2022, wrth gyflwyno canlyniadau'r Cynllun Corfforaethol.
- 2.2 Mae adrodd yn ôl yn rheolaidd yn un o ofynion monitro angenrheidiol y Cynllun Corfforaethol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu ei ddyletswydd i wella. Caiff adroddiadau perfformiad chwarterol eu rhannu yn rheolaidd gyda'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA), y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad.

3. Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Argymhellir bod y Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ystyried yr adroddiad ac unrhyw gamau pellach sy'n ofynnol, er mwyn ymateb i unrhyw faterion yn ymwneud â pherfformiad a amlygir yn yr adroddiad.
- 3.2 Yn amodol ar unrhyw newidiadau y cytunwyd arnynt, mae'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn cadarnhau cynnwys yr adroddiad drafft.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1 Mae Cynllun Corfforaethol 2017-22 y Cyngor yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer y Cyngor a'i flaenoriaethau ar gyfer y cyfnod pum mlynedd. Caiff manylion ynghylch yr hyn y mae'r Cyngor yn bwriadu ei wneud yn flynyddol er mwyn sicrhau cyflawni'r blaenoriaethau hyn eu datgan mewn cynlluniau gwasanaeth blynyddol. Mae'r prosiectau yn deillio o Gynlluniau Gwasanaethau a Rhaglennu. Adroddir ar gynnydd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA), y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu Perfformiad yn ein hadroddiadau chwarterol.
- 4.2 O fewn yr adroddiad hwn, darperir crynodeb o ddiweddariadau data a phrosiect, ynghyd â thablau data sy'n amlinellu ein sefyllfa bresennol yn llawn. Caiff digwyddiadau diweddar y Cyngor hefyd eu cyflwyno, sy'n amlygu ein cefnogaeth i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Deddf Cydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1 Mae'r adroddiad hwn yn sôn am ein cynnydd wrth ddarparu'r Cynllun Corfforaethol. Dylai unrhyw benderfyniadau a wneir gyfrannu at ddarpariaeth lwyddiannus o'n Blaenoriaethau Corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1 Nid oes unrhyw gost ychwanegol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?

- 7.1 Nid yw Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) yn ofynnol ar gyfer yr adroddiad hwn. Mae'r adroddiad yn darparu gwerthusiad ôl-weithredol o berfformiad y Cyngor ac nid yw'n bosib iddo gael unrhyw effaith ar bobl yn rhannu nodweddion gwarchoddedig. Cafodd AEC ei wneud ar y Cynllun Corfforaethol, ac fe'i cyflwynwyd i'r Cyngor Sir pan gafodd y cynllun ei gymeradwyo ym mis Hydref 2017.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?

- 8.1 Cydsyniwyd yr adroddiad gan y Tîm Cynllunio Strategol, mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y Cyngor. Darparwyd y wybodaeth am berfformiad o fewn y ddogfen hon gan wasanaethau, ac mae hefyd wedi'i dynnu o System Rheoli Perfformiad Verto. Cyn ystyriaeth y Pwyllgor Craffu Perfformiad, rhannwyd yr adroddiad gyda'r UDA ar 18 Tachwedd, a'r Cabinet ar 23 Tachwedd.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

- 9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau cyllid sylweddol yn codi yn yr adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

- 10.1 Nid oes unrhyw risgiau penodol yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn. Swyddogaeth y Gofrestr Risg Gorfforaethol a'r Gofrestr Risg Gwasanaethau yw dynodi (a rheoli) digwyddiadau posibl o risg a allai arwain at y Cyngor yn methu â chyflawni ei Gynllun Corfforaethol.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

- 11.1. Mae rheoli perfformiad amcanion y Cyngor yn elfen allweddol o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (ac yn gysylltiedig â Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb (Cymru) 2011), Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

11.2 Mae Adran 21 Deddf Llywodraeth Leol 2000 ac Adran 7 o gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu rôl Pwyllgor Craffu Perfformiad ac yn adolygu a chraffu ar y Cyngor o ran amcanion polisïau, targedau perfformio ac/ neu feysydd gwasanaeth penodol; gan gynnwys rheoli perfformiad a'r Cynllun Corfforaethol.